CYHOEDDIAD

# Gwerthusiad Haf o Hwyl (crynodeb)

Gwerthusiad proses o gynllun sy'n cefnogi lles plant a phobl ifanc (0 i 25 oed).

Cyhoeddwyd gyntaf: 16 Rhagfyr 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 16 Rhagfyr 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-haf-o-hwyl-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

[Cefndir, nodau a methodoleg]
[Canfyddiadau]
[Casgliadau ac argymhellion]
[Manylion cyswllt]

# Cefndir, nodau a methodoleg

Ar 16 Mehefin 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru raglen gwerth £5 miliwn, o’r enw Haf o Hwyl, i gefnogi plant a phobl ifanc oed 0 i 25 i chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol er mwyn adfer sgiliau cymdeithasol ac emosiynol yn y Gymraeg a’r Saesneg. Dyfarnwyd y gronfa i awdurdod lleol i ddarparu mynediad i weithgareddau er hybu lles cymdeithasol, emosiynol, corfforol a meddyliol pob plentyn a pherson ifanc. Yn ei dro, mae hyn yn rhan annatod o'u cefnogi i ymgysylltu eto â dysgu ac addysg, gan alluogi pob plentyn a pherson ifanc i gyrraedd eu llawn botensial ac yn greiddiol i ymadfer yn sgil pandemig COVID-19. Cyflwynwyd y rhaglen rhwng 1 Gorffennaf a 31 Medi 2021.

Cyflwynodd Ecorys werthusiad proses dulliau cymysg o'r rhaglen HoH. Nodau'r gwerthusiad oedd asesu'r rhaglen; sut y cafodd ei weithredu ar draws ALlau; deilliannau canfyddedig i'w gyfranogwyr a chywain dysgu i gyfeirio polisi ac arfer yn y dyfodol.

Casglwyd mewnwelediadau cyfoethog ac amrywiol o gyfweliadau ansoddol gyda 15 o uwch randdeiliaid, 19 o arweinwyr HoH awdurdodau lleol, a 27 o blant a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-haf-o-hwyl-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

phobl ifanc. Cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau gan 969 o gyfranogwyr y rhaglen a 249 o ddarparwyr, a gwblhaodd arolwg ar-lein. Dadansoddwyd gwybodaeth reoli gan 409 o ddarparwyr. Trafodwyd canfyddiadau cynnar gydag arweinwyr a darparwyr awdurdodau lleol a chyd-ddatblygu'r casgliadau a'r argymhellion mewn digwyddiad bord gron rithwir.

# Canfyddiadau

## Cyrhaeddiad y rhaglen

Cyrhaeddwyd dros 67,500 o blant a phobl ifanc gan raglen HoH 2021 ledled Cymru. Cynigiodd bron i hanner yr holl ddarparwyr weithgareddau teuluol, ochr yn ochr â gweithgareddau i blant a phobl ifanc. Roedd cyrhaeddiad yn well ymhlith grwpiau oedran iau, gyda 70% o'r cyfranogwyr yn 5 i 11 oed. Dim ond 7% o'r cyfranogwyr oedd yn 16 i 25 oed. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd gwybod sut i ymgysylltu orau â grŵp oedran hŷn.

Ceisiodd arweinwyr awdurdod lleol ddatblygu rhaglenni cynhwysol. Roedd cyrhaeddiad yn ôl ethnigrwydd yn alinio â'r boblogaeth genedlaethol, gyda 9% o gyfranogwyr y rhaglen yn Ddu, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig. Ar draws cyfranogwyr, roedd gan 5% anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac roedd pobl anabl yn cyfrif am 3%. Roedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael: Cyflwynwyd 43% o sesiynau HoH gydag agweddau dwyieithog a chyflwynwyd 11% o'r sesiynau yn unig drwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd arweinwyr awdurdodau lleol mewn rhai ardaloedd ddiffyg darpariaeth arbenigol ar gyfer y rhai sydd ag anghenion ychwanegol a'r Gymraeg.

## Gweithrediad y rhaglen gan awdurdodau lleol

Adroddodd awdurdodau lleol fod yr arian yn cynnig ychwanegedd at ddarpariaeth busnes-fel-arfer. Yn fras, mabwysiadodd awdurdodau lleol un o dri model cyflwyno HoH. Roedd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol fynediad agored a darpariaeth wedi'i thargedu (Model 1). Roedd gan rai awdurdodau lleol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-haf-o-hwyl-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

fynediad agored yn bennaf (Model 2) neu raglen wedi'i thargedu'n gyfan gwbl (Model 3). Roedd dulliau awdurdodau lleol yn dibynnu ar ddehongliad lleol o'r canllawiau, capasiti'r tîm, ac a oedd ganddynt gynnig haf presennol i adeiladu arno ai beidio.

Un her allweddol oedd yr amserlen fer rhwng cyhoeddi'r cyllid a dyddiad dechrau'r rhaglen. O ganlyniad, dechreuodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol gyflwyno ar ddiwedd mis Gorffennaf 2021. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol o blaid gweithio gyda darparwyr cymeradwy presennol er effeithlonrwydd ond roedd tystiolaeth bod rhai awdurdodau lleol wedi penodi darparwyr newydd. Esboniodd arweinwyr awdurdodau lleol mai prin oedd yr amser a'r gallu i sicrhau ansawdd. Derbyniodd y darparwyr wahanol lefelau o arweiniad, cymorth a hyfforddiant gan ddibynnu ar yr awdurdod lleol yr oeddent yn gweithio ynddo.

## Ffactorau a fu’n ysgogi ac yn galluogi cyfranogwyr i fynychu

Nododd rhieni, plant a phobl ifanc dri ysgogydd allweddol i fynychu HoH: yn gyntaf, ei fod am ddim; yn ail, y cyfle i roi cynnig ar amrywiaeth o weithgareddau na fyddent fel arall yn gallu cael mynediad atynt; ac yn olaf, y cyfle i dreulio amser y tu allan i'r cartref a chwrdd â phobl. At hynny, roedd plant a phobl ifanc wedi'u hysgogi i fynychu gan y posibilrwydd o gael hwyl. Roedd cyfeillgarwch staff y darparwyr yn annog presenoldeb ymhellach. Roedd darparwyr o'r farn mai'r rhwystrau allweddol o ran presenoldeb cyfranogwyr i weithgareddau HoH oedd cludiant, rhesymau’n ymwneud â rhieni/gofalwyr a phryderon am COVID-19 neu hunan-ynysu.

## Deilliannau a manteision y rhaglen

Dywedodd bron pob un (99%) o'r plant a'r bobl ifanc a gwblhaodd yr arolwg cyfranogwyr eu bod wedi cael hwyl yn mynychu gweithgareddau HoH. Cefnogwyd cyfranogwyr y rhaglen i ailymgysylltu â darpariaeth gymunedol a datblygu ystod o sgiliau personol a chymdeithasol ar ôl y cyfnodau clo. Roedd hefyd yn cefnogi lles corfforol a meddyliol cyfranogwyr.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-haf-o-hwyl-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Manteisiodd darparwyr ar fuddsoddiad ariannol y mae mawr ei angen ar ôl y cyfnodau clo. Gwnaethant ddatblygu perthynas â phlant a phobl ifanc newydd. Credai arweinwyr awdurdod lleol fod cymunedau'n teimlo'n gadarnhaol am y buddsoddiad ynddynt. Un deilliant anfwriadol posib yw bod HoH wedi codi disgwyliadau cymunedau lleol o gael rhaglen debyg y flwyddyn nesaf.

# Casgliadau ac argymhellion

Bu cefnogaeth eang i'r rhaglen ar draws rhanddeiliaid cenedlaethol a lleol. Darparodd y rhaglen HoH amrywiaeth o gyfleoedd i blant a phobl ifanc chwarae, cymdeithasu a chael hwyl.

Argymhellodd uwch randdeiliaid, awdurdodau lleol a phlant a phobl ifanc gyllid parhaus i gefnogi adferiad i blant a phobl ifanc yn sgil COVID-19 yn y tymor hwy. Gwelodd arweinwyr awdurdod lleol botensial i adeiladu ar eu dysgu o raglen HoH 2021. Yn yr un modd, roedd darparwyr am adeiladu ar y berthynas yr oeddent wedi'i ffurfio gyda phlant a phobl ifanc.

Ymhlith yr argymhellion a ddeilliodd o'r ymchwil i wella'r ddarpariaeth yn y dyfodol roedd:

- cadw'r ffocws ar hwyl a chwarae
- buddsoddiad tymor hwy mewn darpariaeth gydol flwyddyn i blant a phobl ifanc
- cynnwys darpariaeth bwyd neu luniaeth ysgafn
- caniatáu digon o amser i gynllunio a sefydlu rhaglenni'n effeithiol
- cryfhau'r gefnogaeth i awdurdodau lleol
    - eglurhad ar y defnydd o gyllid ar gyfer gofal plant, darpariaeth mynediad agored neu wedi'i thargedu
    - cyfleoedd i awdurdodau lleol rannu dysgu ac arfer da
    - cymorth ar gyfer marchnata a brandio rhaglenni
    - symleiddio prosesau adrodd a gwerthuso
- mireinio dulliau penodi darparwyr, y cymorth a roddir a'r cyflwyniad
    - helpu darparwyr cenedlaethol i gefnogi'r rhaglen yn well
    - cryfhau sicrwydd ansawdd y ddarpariaeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-haf-o-hwyl-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

  - lle i rieni yn y ddarpariaeth
- gwella cyrhaeddiad a chynwysoldeb i bobl ifanc 16 i 25 oed, plant ag ADY ac anableddau a darpariaeth cyfrwng Cymraeg

## Manylion cyswllt

Awduron: Valdeep Gill, Erica Bertolotto, Helen Bickley, Natasha Burnley, Gabriela Freitas a Katharine Mckenna

Mae’r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i’r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Faye Gracey
E-bost: **cyfleoeddchwarae@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

Rhif ymchwil cymdeithasol: 81/2021
ISBN digidol: 978-1-20391-469-5

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-haf-o-hwyl-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Gwerthusiad Haf o Hwyl (crynodeb)** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-haf-o-hwyl-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/gwerthusiad-haf-o-hwyl-crynodeb-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.